Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG46846**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) Mandadol mewn Lladd-dai

Mai 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-83504-098-0

## Trosolwg

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i fynnu bod pob lladd-dy yn gosod teledu cylch cyfyng (CCTV).

Rydym wedi ymgynghori ynghylch cynigion i fynnu y dylid cael CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol. Roedd ein cynigion yn cynnwys gofynion ar gyfer gweithredwyr lladd-dai, sef y byddent yn caniatáu i asiantaethau gorfodi gael mynediad at ddarnau o ffilm, ac y byddent yn storio darnau o ffilm am gyfnod penodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos. Fe'i rhoddwyd ar waith ar 14 Tachwedd 2022 a daeth i ben ar 6 Chwefror 2023.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw'r ddogfen hon. Mae'n cynnwys crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Lles Anifeiliaid
Swyddfa'r Prif Filfeddyg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: llesanifeiliaidcymru@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn a'r dogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Dim ond ar wefan Llywodraeth Cymru y gellir cael gafael arnynt, sef: Teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai | LLYW.CYMRU

## Cynnwys


Cyflwyniad .....................................................................................................4
Crynodeb Gweithredol ....................................................................................5
Trosolwg o'r Ymatebion ..................................................................................7
Cwestiynau'r Ymgynghoriad ...........................................................................8
Cwestiwn 1 ..................................................................................................10
Cwestiwn 2 ..................................................................................................11
Cwestiwn 3 ..................................................................................................12
Cwestiwn 4 ..................................................................................................13
Cwestiwn 5 ..................................................................................................14
Cwestiwn 6 ..................................................................................................15
Cwestiwn 7 ..................................................................................................16
Cwestiwn 8 ..................................................................................................17
Cwestiwn 9 ..................................................................................................17
Cwestiwn 10 ................................................................................................18
Y Camau Nesaf ............................................................................................20
Atodiad 1: Rhestr o'r Ymatebwyr (sefydliadau)...............................................21
Atodiad 2: Ymateb ymgyrch yr RSPCA ..........................................................22

## Cyflwyniad

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad. Wrth lunio'r crynodeb hwn o ymatebion, ni fwriadwn adlewyrchu'r holl sylwadau a gafwyd – yn wir, byddai hynny'n amhosibl. Diben y crynodeb yw rhoi trosolwg o'r ymatebion a dangos y mathau o faterion a phryderon a grybwyllwyd mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd.

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau uchelgeisiol i wella lles anifeiliaid. Un o'r ymrwymiadau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy ddefnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV).

Mae Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru (2021-2026) yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, gan adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed gennym eisoes i wella lles anifeiliaid.[1]

Cynigiwn gyflwyno rheoliadau ar gyfer y canlynol:

- **Ei gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy cymeradwy osod camerâu CCTV yn yr holl ardaloedd lle caiff anifeiliaid byw eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd.** Rhaid gosod y camerâu mewn modd a fydd yn sicrhau y gellir cael golwg gyflawn a chlir ar yr holl ardaloedd lle mae anifeiliaid yn bresennol, a rhaid i gydraniad y llun fod yn ddigon da er mwyn ei gwneud yn bosibl i allu adnabod pobl yn y lluniau a'r delweddau a gaiff eu recordio. Os ceir camerâu CCTV eraill ar y safle, er enghraifft am resymau diogelwch neu i chwilio am namau, ni fyddai'r camerâu hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r system CCTV ar gyfer monitro ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol.

- **Ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr lladd-dai gadw'r delweddau a recordiwyd am 90 diwrnod fan leiaf.** Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm.[2] Os caiff y delweddau eu defnyddio fel rhan o ymchwiliad neu erlyniad parhaus, gall yr asiantaeth orfodi berthnasol gadw delweddau a recordiwyd am gyfnodau hwy.

- **Ei gwneud yn ofynnol i unigolion awdurdodedig allu gweld, copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd.** Er mwyn iddynt allu rhoi mesurau gorfodi ar waith, efallai y bydd swyddogion awdurdodedig, megis Milfeddygon Swyddogol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a staff o sefydliadau a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru, yn cael y pŵer i gael mynediad dilyffethair at ddarnau o ffilm – rhai byw a rhai a recordiwyd – er mwyn iddynt allu monitro a dilysu safonau lles anifeiliaid mewn lladd-dai.

[1] Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026 (llyw.cymru)
[2] Farm Animal Welfare Committee Opinion on CCTV in Slaughterhouses

## Crynodeb Gweithredol

- Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos – sef ymgynghoriad ynglŷn â'n cynigion i fynnu y dylid gosod CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol – ei gyhoeddi ar 14 Tachwedd 2022 a daeth i ben ar 6 Chwefror 2023.

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 10 cwestiwn yn ymwneud â manylion y cynnig, yr effeithiau economaidd ar y diwydiant, y manteision o ran lles anifeiliaid a'r effaith ar y Gymraeg.

- Cafwyd 16,014 o ymatebion i'r ymgynghoriad, sef 15,955 o ymatebion trwy e-bost a 59 o ymatebion trwy gyfrwng y ffurflen ymateb ar-lein. Cafwyd 71 o ymatebion unigol ynghyd â 15,943 o ymatebion e-bost a oedd yr un fath yn union â'i gilydd ac a dderbyniwyd fel rhan o ymgyrch gan yr RSPCA. Hefyd, cyflwynodd yr RSPCA ymateb sylweddol ar wahân.

At ddibenion y crynodeb hwn, mae'r dadansoddiad canlynol wedi'i seilio ar y 71 o ymatebion nad oeddynt yn rhan o'r ymgyrch, yn cynnwys ymateb sylweddol yr RSPCA. Caiff yr ymatebion a oedd yn rhan o'r ymgyrch eu hystyried ar wahân:

- Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd.

- Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r manteision o ran lles anifeiliaid a nodwyd gennym mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i ladd-dai gyflwyno CCTV.

- Roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofyniad arfaethedig i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod.

- Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai unigolion awdurdodedig gael mynediad dilyffethair er mwyn iddynt allu gweld, copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd (rhai amser real a rhai a storiwyd).

- Roedd 38% o'r ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad o'r gost a ddaw i ran lladd-dai unigol a diwydiant lladd-dai Cymru yn sgil cyflwyno CCTV mandadol. Roedd 9% yn anghytuno; roedd 53% yn ansicr neu ni wnaethant gyflwyno ateb ydw/nac ydw.

Ymatebion ymgyrch yr RSPCA:

- Cafwyd 15,943 o ymatebion fel rhan o ymgyrch yr RSPCA.

- Roedd pob un o'r ymatebwyr a oedd yn rhan o'r ymgyrch yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd.

- Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â’r manteision o ran lles anifeiliaid a nodwyd gennym mewn perthynas â’i gwneud yn ofynnol i ladd-dai gyflwyno CCTV.

- Cyflwynodd yr RSPCA ymateb cynhwysfawr ar wahân ar ran y sefydliad. Cynhwysir yr ymateb hwn yn y crynodeb a gyflwynir ar y tudalennau canlynol (sef y crynodeb nad yw’n cynnwys yr ymatebion a oedd yn rhan o’r ymgyrch).

## Trosolwg o'r Ymatebion

Cafwyd 16,014 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd 71 o ymatebion unigol; cyflwynwyd 59 ohonynt trwy gyfrwng y porth ar-lein a chyflwynwyd 12 ohonynt trwy e-bost. Hefyd, cafwyd 15,943 o ymatebion e-bost a oedd yr un fath yn union â'i gilydd, sef ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o ymgyrch gan yr RSPCA.

At ddibenion y crynodeb hwn, mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar y 71 o ymatebion unigol nad oeddynt yn rhan o'r ymgyrch, yn cynnwys ymateb sylweddol yr RSPCA.

Yn Atodiad 2, ceir enghraifft o ymateb a oedd yn perthyn i ymgyrch yr RSPCA.

Nid atebwyd yr holl gwestiynau gan bob un o'r ymatebwyr. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr unrhyw un o'r cwestiynau'n uniongyrchol. Mewn achosion o'r fath, ac at ddibenion y dadansoddiad hwn, neilltuwyd yr ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn gweddu orau iddynt. Ymhellach, pan nad atebwyd cwestiynau penodol gan yr ymatebwyr, mae'n bosibl bod rhannau o'r atebion hynny wedi cael eu neilltuo i gwestiwn arall addas. O dan bob cwestiwn, rydym wedi cynnwys enghreifftiau cynrychiadol o'r ymatebion a gafwyd.

Isod, ceir trosolwg o'r gwahanol sectorau a sefydliadau a ymatebodd:

| | |
|---|---|
| Y cyhoedd | 48 |
| Gweithredwyr lladd-dai | 3 |
| Eraill, yn cynnwys Cyrff sy'n Cynrychioli'r Diwydiant a Sefydliadau'r Trydydd Sector | 20 |
| **Cyfanswm** | **71** |

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**

Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy gyflwyno CCTV. A ydych yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy yn yr ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd? Rhowch resymau dros eich ymateb.

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno â'r prif fanteision o ran lles anifeiliaid a nodir gennym mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i ladd-dai gyflwyno CCTV? Rhowch wybod inni am unrhyw fanteision posibl eraill yn ymwneud â lles anifeiliaid.

**Cwestiwn 3**

A ydych yn cytuno â'r gofyniad arfaethedig i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod? Rhowch resymau dros eich ymateb.

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno y dylai unigolion awdurdodedig gael mynediad dilyffethair er mwyn iddynt allu gweld, copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd (rhai amser real a rhai a storiwyd)? Rhowch resymau dros eich ymateb.

**Cwestiwn 5**

A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r gost a ddaw i ran (a) lladd-dai unigol a (b) diwydiant lladd-dai Cymru yn ei gyfanrwydd yn sgil cyflwyno CCTV mandadol? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

**Cwestiwn 6**

A ydych o'r farn fod y costau sydd ynghlwm wrth gyflwyno CCTV mandadol mewn lladd-dai yn rhesymol ac yn gymesur i fusnesau unigol, ni waeth be fo'u maint? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

**Cwestiwn 7**

A oes yna unrhyw fanteision neu gostau economaidd na soniwyd amdanynt yn y ddogfen ymgynghori neu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Esboniwch beth allai'r rhain fod a chyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

**Cwestiwn 8**

A ydych yn fodlon i Lywodraeth Cymru gysylltu â chi i gael eglurhad pellach ynglŷn â'r effeithiau ariannol a amcangyfrifwyd gennych?

**Cwestiwn 9**

Ystyriwch a nodwch yr effeithiau (cadarnhaol neu niweidiol) y byddai ein cynnig i osod CCTV mewn lladd-dai yn ei gael ar y canlynol:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.
- Y modd y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig er mwyn sicrhau y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol.
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg [ailadrodd]
- Y modd y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig er mwyn sicrhau na fyddai'n cael effeithiau niweidiol, neu y byddai'n cael llai o effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Cwestiwn 10**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych o'r farn fod yna faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw'n benodol, rhowch wybod inni.

## Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

**Cwestiwn 1** – Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy gyflwyno CCTV. A ydych yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy yn yr ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd? Rhowch resymau dros eich ymateb.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan saith deg o'r ymatebwyr. Roedd y mwyafrif (86%) yn cytuno â'n cynigion i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy gyflwyno CCTV yn yr holl ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol. Roedd y manteision a nodwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys gwella lles anifeiliaid drwy gydol y broses ladd trwy sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau lles anifeiliaid a thrwy gyflwyno tystiolaeth ar gyfer camau gorfodi.

Roedd chwech o'r ymatebwyr (9%) yn anghytuno â'n cynigion. Roedd y rhesymau a gyflwynwyd yn cynnwys costau anghymesur ar gyfer rhai lladd-dai llai a'r gofyniad presennol sy'n mynnu bod yn rhaid i Filfeddyg Swyddogol fod yn bresennol – felly nid oes angen CCTV.

Yn achos (5%) o'r ymatebwyr, nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Gweler hefyd ymateb ymgyrch yr RSPCA i'r cwestiwn hwn yn Atodiad 2.
Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Mae Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid, yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy cymeradwy osod CCTV mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin a'u lladd. Mae CCTV yn bwysig er mwyn sicrhau y bydd modd i'r rhai sy'n gweithio mewn lladd-dai gynnal safonau iechyd a lles anifeiliaid bob amser. Byddai presenoldeb CCTV yn helpu i sicrhau hyn trwy wella'r modd y gellir dilysu ac arsylwi ar ddulliau priodol o ddadlwytho, trin, cadw a stynio anifeiliaid.'* (Coleg Brenhinol y Milfeddygon)

*'Rwy'n credu bod hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau lles da byw hyd nes y cânt eu lladd. Mae CCTV yn galluogi gweithredwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn lles anifeiliaid i fonitro anifeiliaid a gedwir dros nos mewn gwalfeydd ac mae'n arf gwerthfawr o ran sicrhau y dilynir yr holl weithdrefnau.'* (Gweithredwr Busnes Bwyd)

*'Mae CCTV yn arf pwysig o ran cynnal lles anifeiliaid mewn lladd-dai. Fel y nodir yn y deunydd cyhoeddedig sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn, "rhaid gosod y camerâu mewn modd a fydd yn sicrhau y gellir cael golwg gyflawn a chlir ar yr holl ardaloedd lle mae anifeiliaid yn bresennol, a rhaid i gydraniad y llun fod yn ddigon da er mwyn ei gwneud yn bosibl i allu adnabod pobl yn y lluniau a'r delweddau a gaiff eu recordio." Bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn sicrhau bod y recordiadau'n arf defnyddiol i'r Milfeddyg Swyddogol a'r Swyddog Lles Anifeiliaid, yn ogystal ag i staff y lladd-dy.'* (Humane Slaughter Association)

*'Er bod NFU Cymru o'r farn y gall CCTV fod yn fuddiol iawn mewn lladdai, credwn y bydd y gost yn anghymesur i unedau llai. Fel y nodir gan Lywodraeth Cymru yn y*

*cyflwyniad i'r ymgynghoriad, y nod yw amddiffyn lles anifeiliaid a chyflwyno tystiolaeth o safonau gofal uchel pe bai angen. Mae NFU Cymru a'r diwydiant da byw yng Nghymru yn cyd-fynd yn llwyr â'r nodau hyn. Ond yn ymarferol, y gwir amdani yw bod gwaith y camera, mewn lladd-dai bach, yn cael ei wneud gan Filfeddygon Swyddogol y Llywodraeth, sef swyddogion annibynnol a chymwysedig – mae Milfeddygon Swyddogol o'r fath yn goruchwylio'r holl ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd. Ar y cyd â gweithredwr y lladd-dy, gellir mynd ati yn y fan â'r lle i ymdrin ag unrhyw arferion annerbyniol yn ymwneud â lles anifeiliaid, ac yna caiff adroddiad ysgrifenedig ei lunio a chaiff rhybudd ei roi os oes angen. Os daw CCTV yn fandadol, awgrymwn yn gryf y dylid cynnwys esemptiad yn y rheolau pan fo modd i Filfeddyg Swyddogol mewn lladd-dy bach ddilysu'n annibynnol ei fod yn gwbl fodlon nad yw'r gwaith a wneir ar ddiwrnodau lladd yn rhoi'r broses ladd yn y fantol. Mae maint yr elw a wneir gan nifer o ladd-dai yn eithriadol o dynn, yn enwedig yn ein lladd-dai bach. Sylweddolwn yn llwyr fod lles anifeiliaid yn drech nag ystyriaethau'n ymwneud ag elw, ond ni fyddai esemptiad dewisol ar gyfer y busnesau a nodir uchod yn rhoi lles anifeiliaid yn y fantol. Y realiti yw y gallai rhai lladd-dai llai yng Nghymru benderfynu rhoi'r gorau i'r busnes pe bai ychwaneg o gostau'n cael eu rhoi ar eu hysgwyddau. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar gynhyrchwyr da byw Cymru, ar y gallu i adeiladu cadwyni cyflenwi bwyd lleol, byr â gwerth ychwanegol. Hefyd, byddai'n rhaid i anifeiliaid deithio ymhellach i gael eu lladd. Yn aml, ceir rhesymau da (yn ymwneud â lles) dros yr angen i ladd rhai anifeiliaid mor agos â phosibl at y fferm. Gallwn weld achos dros ddefnyddio CCTV mewn lladd-dai llai pe bai'r camerâu'n arwain at arbed costau i weithredwyr lladd-dai (hynny yw, y gost o dalu am amser a phresenoldeb Milfeddyg Swyddogol yn ystod pob rhan o'r broses ladd); ond, yn ôl yr ymgynghoriad a gynigir gan Lywodraeth Cymru, nid dyma'r sefyllfa.'* (NFU Cymru)

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno â'r prif fanteision o ran lles anifeiliaid a nodir gennym mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i ladd-dai gyflwyno CCTV? Rhowch wybod inni am unrhyw fanteision posibl eraill yn ymwneud â lles anifeiliaid.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan chwe deg wyth o'r ymatebwyr. Roedd y mwyafrif (84%) yn cytuno â'r manteision a nodwyd gennym o ran lles anifeiliaid. Soniwyd am fanteision eraill hefyd, yn cynnwys y ffaith y byddai CCTV yn cyfrannu at hyfforddi staff sy'n trin ac yn lladd anifeiliaid ac y gellid ei ddefnyddio fel arf defnyddiol i ganfod (a datrys) meysydd neu arferion sy'n achosi problemau.

Roedd pedwar o'r ymatebwyr (6%) yn anghytuno â'r manteision a nodwyd gennym o ran lles anifeiliaid. Nodwyd bod lladd-dai bach yn gweithio'n arafach ac, o'r herwydd, na chaiff yr anifeiliaid eu rhuthro trwy'r broses. Gofynnodd un ymatebydd pwy sy'n monitro'r anifeiliaid drwy gydol eu hoes, ar y fferm, yn y farchnad ac wrth eu cludo, gan dynnu sylw at y ffaith na cheir unrhyw ofyniad am CCTV yn y mannau hynny.

Yn achos saith o'r ymatebwyr (10%), nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Gweler hefyd ymateb ymgyrch yr RSPCA i'r cwestiwn hwn yn Atodiad 2.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Bydd CCTV yn sicrhau y gellir atal creulondeb ac arferion gwael mewn lladd-dai a mannau eraill lle caiff anifeiliaid eu lladd. Mae'r rheoliadau'n pennu gofynion penodol sy'n anelu at atal troseddau'n ymwneud ag achosi cyffro, poen neu ddioddefaint diangen i unrhyw anifail mewn lladd-dy. Bydd monitro'r cyfnod hwn yn ffordd o atal troseddwyr posibl.'* (Shechita UK)

*'Mae'r FUW yn cytuno â'r manteision a nodir; yn cynnwys darparu tystiolaeth y cydymffurfir â'r rheolau, amddiffyn rhag honiadau di-sail o gamymddwyn / esgeulustod, a ffordd o hyfforddi'r staff a gwella ffydd y cyhoedd. Yn ôl nifer o'r aelodau, dylai CCTV mandadol wella hyder defnyddwyr mewn Gweithredwyr Busnesau Bwyd a dylai sicrhau bod Gweithredwyr Busnesau Bwyd o'r fath yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau safonau uchel mewn perthynas â lles anifeiliaid. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai gwella hyder mewn lles anifeiliaid yn diogelu ac yn cyfoethogi mwy fyth ar brofiad y defnyddiwr – hynny yw, profiad 'o'r giât i'r plât'. Mae'r FUW yn cytuno bod lladd-dai yn dwyn gwarth ar ladd-dai eraill pan fônt yn cam-drin lles anifeiliaid a phan fo hynny'n arwain at greu enw drwg ehangach ar gyfer y sector cyfan, yn cynnwys y mwyafrif sy'n cydymffurfio â'r rheolau.'* (Undeb Amaethwyr Cymru, FUW)

*'Rydym yn cytuno â'r manteision a nodwyd o ran gwneud CCTV yn ofynnol. Ond unwaith eto, tynnwn sylw at yr effaith y byddai colli lladd-dai lleol, llai yn ei gael ar dda byw trwy gyfrwng y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ofyniad o'r fath. Os bydd Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylid gosod CCTV mewn lladd-dai ledled Cymru, yna rhaid cynnig cymorth ariannol i ladd-dai llai y bydd hyn oll yn effeithio ar eu hyfywedd. Ochr yn ochr â chymorth penodol ar gyfer gweithredu a rheoli systemau CCTV yn effeithiol, rhaid i Lywodraeth Cymru ac, yn wir, Llywodraeth y DU, roi strategaeth ar waith ar gyfer cynnal y lladd-dai lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd a cheisio cynyddu eu niferoedd er mwyn ategu systemau bwyd lleol, o gofio'r heriau lu sy'n wynebu'r sector cig. Gallai defnyddio CCTV mewn lladd-dai llai esgor ar fanteision ychwanegol o ran eu hyfywedd. Mewn rhai amgylchiadau, gellid defnyddio CCTV mewn lladd-dai symudol, lle gall fod yn anos sicrhau bod Milfeddygon Swyddogol yn bresennol.'* (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru)

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno â'r gofyniad arfaethedig i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod? Rhowch resymau dros eich ymateb.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan saith deg o'r ymatebwyr. Roedd y mwyafrif (74%) yn cytuno â'n cynnig i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys yr angen i gadw darnau o ffilm am gyfnod rhesymol, rhag ofn y byddai eu hangen i ategu ymchwiliadau.

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr (16%) yn anghytuno â'r gofyniad arfaethedig. Cynigiodd rhai ohonynt awgrymiadau eraill, yn cynnwys cadw darnau o ffilm am lai na 90 diwrnod ac am gyfnod hyd at bum mlynedd. Wrth esbonio pam y gallai 90 diwrnod fod yn anaddas, soniwyd am nodweddion caledwedd y camerâu ynghyd â phryderon yn ymwneud â diogelu data.

Yn achos saith o'r ymatebwyr (10%), nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Roedd yr aelodau'n cytuno â'r gofyniad arfaethedig i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod. Ystyriwyd bod cyfnod o 90 diwrnod yn briodol, oherwydd mae'n debyg i'r gofynion sy'n berthnasol i Loegr (2018) ac i'r Alban (2021). Trwy gael gofynion unffurf, byddai modd ategu cydymffurfedd a lleihau biwrocratiaeth ar gyfer Gweithredwyr Busnesau Bwyd a chanddynt safleoedd ar fwy nag un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ychwanegol at yr uchod, dywedodd yr aelodau y dylai 90 diwrnod fod yn fwy na digon i sicrhau bod y darnau o ffilm ar gael ar gyfer yr holl ymchwiliadau angenrheidiol.'* (Undeb Amaethwyr Cymru)

*'Ers 2021, mae gosod CCTV yn ofynnol mewn perthynas â safonau lles anifeiliaid fferm yr RSPCA. Mae'r safonau'n mynnu y dylid cadw darnau o ffilm CCTV am dri mis o leiaf.'* (RSPCA)

*'Byddem yn croesawu'r gofyniad i weithredwyr lladd-dai gadw darnau o ffilm CCTV am 90 diwrnod. Gall CCTV gynnig tystiolaeth allweddol pan fo rhyw weithred ddrwg wedi'i chyflawni mewn lladd-dai.'* (Animal Aid)

*'Na, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol i ddarnau o ffilm CCTV. Nid manylion ysgrifenedig yn unig sy'n berthnasol i'r Ddeddf hon; mae lluniau a fideos y gellir eu defnyddio i adnabod pobl yn berthnasol iddi hefyd. Ond mae cadw'r darnau o ffilm yn ddiogel, a'u dileu ar ôl cyfnod penodol, yn gyfrifoldeb enfawr. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr CCTV yn cadw darnau o ffilm a gaiff eu recordio am 31 diwrnod. Dyma'r cyfnod a argymhellir gan yr heddlu hefyd. Pe bai trosedd honedig wedi cael ei chyflawni, mae 31 diwrnod yn hen ddigon o amser i'r awdurdodau gael gafael ar y fideo. Ymhellach, mae cod ymarfer CCTV Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi na ddylid cadw data yn hwy na'r angen.'* (NFU Cymru)

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno y dylai unigolion awdurdodedig gael mynediad dilyffethair er mwyn iddynt allu gweld, copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd (rhai amser real a rhai a storiwyd)? Rhowch resymau dros eich ymateb.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan saith deg o'r ymatebwyr. Roedd y mwyafrif (84%) yn cytuno y dylai personél awdurdodedig gael mynediad dilyffethair at y darnau o ffilm. Nodwyd bod mynediad dilyffethair at ddelweddau a recordiwyd yn hollbwysig o ran sicrhau y gellid mynd ati mewn modd ystyrlon i ddefnyddio darnau o ffilm fel tystiolaeth, ac er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol. Ond mynegwyd rhai pryderon hefyd, yn cynnwys y posibilrwydd y gallai'r cyhoedd fethu â deall natur y broses ladd yn llwyr; o'r herwydd, ni ddylai delweddau a recordiwyd fod yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r syniad y dylai personél awdurdodedig gael mynediad dilyffethair at y darnau o ffilm.

Yn achos naw o'r ymatebwyr, nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Bydd hyn yn sicrhau y caiff CCTV ei ddefnyddio mewn modd tryloyw, a bydd hynny'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae CCTV yn hollbwysig o ran cymryd camau gorfodi ac erlyn ar sail y data a gyflwynir.'* (Milfeddyg)

*'Mewn egwyddor, nid oes yna unrhyw reswm pam na ddylai unigolion awdurdodedig gael gweld delweddau CCTV lladd-dai ar unrhyw adeg. Y mater hollbwysig yw sicrhau mai unigolion awdurdodedig yn unig a all gael mynediad at y delweddau hyn. Mae yna amryfal garfanau gwasgu a fyddai'n dymuno defnyddio delweddau lladd-dai yn erbyn y diwydiant cig yn eu deunyddiau lobïo (hyd yn oed pe bai'r deunyddiau hynny'n dangos gweithgareddau cwbl gyfreithlon). Ein dadl ni yw y dylid rhwystro'r sefydliadau yma rhag gwneud hyn trwy sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli pwy a all gael mynediad at ddelweddau o'r fath, a phwy a all eu copïo a'u rhannu.'* (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru).

*'Os daw CCTV yn orfodol – a dyna, fe ymddengys, yw dymuniad y llywodraeth – ni chredaf fod yna unrhyw wahaniaeth rhwng caniatáu i unigolyn awdurdodedig wylio'r broses yn fyw ar y naill law a chaniatáu i unigolyn awdurdodedig wylio'r broses ar sgrin ar y llaw arall.'* (David Huw Evans, Cig Oen Caron)

*'Rhaid i'r ddeddfwriaeth gynnwys diffiniad clir o'r unigolion sydd ag awdurdod i gael mynediad at unrhyw ddarnau o ffilm. Hefyd, rhaid i'r unigolion hyn gael hyfforddiant ac awdurdod addas er mwyn iddynt allu deall y gwaith a wneir mewn lladd-dai yn ogystal â deall y darnau o ffilm y byddant yn eu gweld, a rhaid iddynt fod â rheswm dilys dros wneud hynny, fel y pennir yn eu swydd-ddisgrifiad.'* (NFU Cymru)

**Cwestiwn 5** – A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r gost a ddaw i ran (a) lladd-dai unigol a (b) diwydiant lladd-dai Cymru yn ei gyfanrwydd yn sgil cyflwyno CCTV mandadol? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan chwe deg saith o'r ymatebwyr. Roedd dau ddeg saith (38%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad o'r costau. Wrth gytuno â'n hasesiad, dywedodd rhai eu bod o'r farn y byddai'r gost yn her i ladd-dai llai, ond bod modd cyfiawnhau'r gost ar sail lles yr anifeiliaid ac enillion i'r diwydiant. Roedd chwech (9%) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n hasesiad o'r costau. Roedd rhai o'r farn fod ein hamcangyfrifon yn rhy isel, ac argymhellwyd y dylid cynnal dadansoddiad pellach er mwyn cael gwell amcangyfrif o'r costau.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan un deg saith (23%) o'r ymatebwyr, ond ni chyflwynwyd ateb 'ydw' neu 'nac ydw' ganddynt.

Yn achos dau ddeg dau (30%) o'r ymatebwyr, nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Ymddengys fod y rhagdybiaethau yn yr asesiad effaith yn rhesymol. Er y gall y costau sydd ynghlwm wrth osod CCTV fod yn faen tramgwydd i ladd-dai llai, mae'r manteision yn drech na'r costau.'* (RSPCA)

*'Ymddengys fod y costau a bennir yn yr asesiad effaith yn isel ac rydym yn rhagdybio eu bod wedi'u seilio ar y camerâu analog rhataf. Ar ôl gwneud nifer o ymholiadau, ymddengys fod swm o £7,000 ar gyfer system fodern â saith camera (gyda lle i storio tri mis o ffilm) yn fwy realistig. Bydd cwmpas ychwanegol ar gyfer systemau presennol yn amrywio yn ôl y math o system sydd ar waith, a'i hoedran. Yn achos systemau analog, efallai'n wir mai oddeutu £500 fydd y gost ar gyfer pob ardal ychwanegol; ond yn ôl ein ffynonellau ni, gallai systemau digidol modern gostio hyd at £1,500 ar gyfer pob ardal ychwanegol. Amcangyfrifwyd yn ddiweddar y gallai'r gost fod rhwng £3,000 a £10,000, gan ddibynnu ar faint y busnes.'* (Humane Slaughter Association)

*'Mae lladd-dai llai wedi cau eisoes oherwydd rheolau a rheoliadau – yn awr, rhaid i ffermwyr deithio ymhellach o lawer i fynd i ladd-dai – ôl troed carbon.'* (Swyddog y Diwydiant – ni roddwyd enw)

**Cwestiwn 6** – A ydych o'r farn fod y costau sydd ynghlwm wrth gyflwyno CCTV mandadol mewn lladd-dai yn rhesymol ac yn gymesur i fusnesau unigol, ni waeth be fo'u maint? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (58%) yn cytuno bod y gost sydd ynghlwm wrth gyflwyno CCTV mandadol yn rhesymol i fusnesau unigol. Dywedwyd bod gosod CCTV wedi bod yn broses ariannol hyfyw yn Lloegr. Cyfeiriodd un ymatebydd at adroddiad ymchwil a gynhaliwyd gan dîm o arbenigwyr annibynnol o dan arweiniad yr Athro Ian Rotherham o Brifysgol Hallam Sheffield, lle nodir bod defnyddio CCTV mewn lladd-dai yn gost-effeithiol ac yn ddichonol.[3]

Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon. Pe bai'r costau gosod a'r costau rhedeg yn peri i rai safleoedd llai gau, gan arwain at deithiau hirach i dda byw ymhlith pethau eraill, a allai hyn oll fod yn wrthgynhyrchiol mewn ambell achos, gan esgor ar effaith negyddol net ar les anifeiliaid?

Roedd saith o'r ymatebwyr yn anghytuno bod y costau sydd ynghlwm wrth gyflwyno CCTV mandadol yn rhesymol i fusnesau unigol.

Yn achos dau ddeg tri o'r ymatebwyr, nid oeddynt yn gwybod neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Er nad oes gan Sefydliad Lles Anifeiliaid y Ceidwadwyr fynediad at ddata'n ymwneud ag elw a llif arian perchnogion a gweithredwyr lladd-dai, rydym yn cytuno bod y costau a nodir yn nogfen wybodaeth yr Ymgynghoriad yn rhesymol ac yn gymesur i fusnesau unigol, ni waeth be fo'u maint (cost untro gychwynnol o £2,500 yn achos safleoedd*

[3] [Research Report on CCTV Monitoring in Slaughterhouses]

*heb CCTV, a £500 ar gyfer pob ardal ychwanegol yn achos safleoedd a chanddynt CCTV ar hyn o bryd). Pwynt perthnasol yn hyn o beth yw maint a graddfa'r gweithredwyr yng Nghymru, fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, a'r ffaith bod ganddynt CCTV yn barod: yng Nghymru, caiff 95% o ddefaid eu lladd ar dri safle, ac mae gan bob un o'r safleoedd hynny CCTV; caiff 96% o wartheg eu lladd ar dri safle, ac mae gan bob un o'r safleoedd hynny CCTV; a chaiff 98% o ddofednod eu lladd ar dri safle, ac unwaith eto mae gan y safleoedd hynny CCTV. Mae hyn yn gadael gweithredwyr sy'n gyfrifol am y canlynol: 5% o ddefaid, 4% o wartheg a 2% o ddofednod – dim ond y gweithredwyr hyn a fyddai'n gorfod dod o hyd i fuddsoddiad cychwynnol ychwanegol o £2500.'* (Sefydliad Lles Anifeiliaid y Ceidwadwyr)

*'Rydym yn cydnabod y costau ariannol a ddaw i ran lladd-dai ar gyfer gosod CCTV, yn ogystal â'r costau ar gyfer cynnal a chadw systemau CCTV a storio darnau o ffilm. Ond credwn fod y manteision anariannol a ddaw i ran rhanddeiliaid – anifeiliaid, Milfeddygon Swyddogol, staff lladd-dai, y cyhoedd a Gweithredwyr Busnesau Bwyd – yn cyfiawnhau unrhyw wariant.'* (Cymdeithas Milfeddygon Prydain)

*'Na, oherwydd yn amlwg nid yw'r costau'n rhesymol nac yn gymesur. Ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw capasiti lladd yng Nghymru, ac mae angen cymysgedd o ladd-dai bach, canolig a mawr er mwyn diwallu anghenion y farchnad ar gyfer cig coch a chig gwyn.'* (NFU Cymru)

*'Fe fydd y gost i ladd-dai bach, fel ein lladd-dy ni, yn anghymesur o gymharu â'r gost i weithredwyr mwy – sef gweithredwyr sydd o blaid gosod CCTV beth bynnag at ddibenion diogelwch.'* (David Huw Evans, Cig Oen Caron)

**Cwestiwn 7** – A oes yna unrhyw fanteision neu gostau economaidd na soniwyd amdanynt yn y ddogfen ymgynghori neu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Esboniwch beth allai'r rhain fod a chyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan ddau ddeg pedwar (34%) o'r ymatebwyr.

Soniwyd am y manteision canlynol:

- Gallu bod yn rhan o gynlluniau gwarantu, fel Cynllun Gwarantedig yr RSPCA ac Ardystiad Cymdeithas y Pridd, lle ceir gofynion helaeth o ran lles anifeiliaid a lle gellir hawlio pris uwch mewn archfarchnadoedd.
- Arddangos ein safonau lles uchel i gwsmeriaid rhyngwladol neu wrth drafod cytundebau masnach.

Nodwyd y costau ychwanegol a ganlyn:

- Cynnal a chadw a glanhau camerâu mewn amgylcheddau didrugaredd.
- Y posibilrwydd y byddai angen uwchraddio camerâu pe na baent yn cynhyrchu delweddau digon clir ar gyfer gwylio a dadansoddi manwl.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Un agwedd i'w hystyried yw'r effaith a gaiff ffilmio cudd ar enw da'r diwydiant. Er y cydnabyddir na fydd CCTV mandadol yn atal pob rheol yn ymwneud â lles anifeiliaid*

*rhag cael ei thorri, y gobaith yw y bydd gwell tryloywder a defnydd effeithiol o CCTV at ddibenion monitro yn gwella lles anifeiliaid ac yn lleihau achosion o ffilmio cudd. Hefyd, rhaid i wledydd y DU allu dangos a chyflwyno tystiolaeth o'n safonau lles uchel er mwyn gallu cystadlu mewn marchnadoedd byd-eang, a hefyd wrth drafod cytundebau masnach ryngwladol.'* (Milfeddyg – ni roddwyd enw)

*'Mae yna bosibilrwydd y bydd peidio â gosod CCTV yn arwain at gost – hynny yw, y bydd y cyhoedd a'r defnyddwyr yn colli hyder. Fe allai hyn gael effaith economaidd negyddol ar y diwydiant ar ffurf enw drwg a cholli busnes.'* (RSPCA)

*'Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod yn ddigonol pa mor bwysig yw lladd-dai bach yng nghefn gwlad Cymru. Mae lladd-dai bach yn gyflogwyr pwysig mewn ardaloedd gwledig a hefyd maent yn cynnig gwasanaeth i gymunedau a ffermydd lleol, yn ogystal â darparu'r manteision a ddaw yn sgil cadwyni cyflenwi byr – sef cysyniad a hyrwyddir ym mholisïau bwyd Llywodraeth Cymru.'* (NFU Cymru)

**Cwestiwn 8** – A ydych yn fodlon i Lywodraeth Cymru gysylltu â chi i gael eglurhad pellach ynglŷn â'r effeithiau ariannol a amcangyfrifwyd gennych?

Dywedodd tri deg chwech (50%) o'r ymatebwyr y byddent yn fodlon i Lywodraeth Cymru gysylltu â nhw i gael tystiolaeth ac eglurhad pellach ynglŷn ag effaith ariannol ein cynigion.

**Cwestiwn 9** – Ystyriwch a nodwch yr effeithiau (cadarnhaol neu niweidiol) y byddai ein cynnig i osod CCTV mewn lladd-dai yn ei gael ar y canlynol:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.
- Y modd y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig er mwyn sicrhau y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol.
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg
- Y modd y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig er mwyn sicrhau na fyddai'n cael effeithiau niweidiol, neu y byddai'n cael llai o effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan dri deg (42%) o'r ymatebwyr. Ym marn y mwyafrif, go brin y byddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Mae llawer o'n lladd-dai wedi'u lleoli yng nghefn gwlad Cymru, sef yng nghanol y fro Gymraeg. Mae cyfran helaeth o staff lladd-dai llai yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, felly rhaid inni fachu ar bob cyfle i sicrhau y bydd y lladd-dai hyn (llawer ohonynt yn*

*cael eu rhedeg gan deuluoedd lleol ers degawdau) yn parhau i fod yn fusnesau hyfyw.'* (NFU Cymru)

*'Polisi'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad mewn perthynas â'r Gymraeg yw y dylid defnyddio'r iaith mewn modd cadarnhaol yn hytrach nag mewn modd negyddol neu wahaniaethol. Os oes modd ychwanegu gwir werth at fusnesau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, neu os yw'r perchennog / rheolwr tir yn dymuno cynnal ei fusnes trwy gyfrwng y Gymraeg, dylid annog a chefnogi hyn. Os nad yw pobl yn dymuno gwneud hynny, ni ddylent gael eu trin yn negyddol.'* (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru)

**Cwestiwn 10** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych o'r farn fod yna faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw'n benodol, rhowch wybod inni.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan ddeunaw (25%) o'r ymatebwyr.

Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*'Er bod yr ymgynghoriad yn sôn am ddau opsiwn, sonnir wedyn am 'Busnes fel arfer', sef opsiwn 1, a dywedir '*Nid yw 'busnes fel arfer' yn opsiwn'. *O'r herwydd, yn briodol ddigon mae ein haelodau wedi gofyn a yw'r ymgynghoriad hwn yn ymgynghoriad go iawn? Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig hwn er gwaethaf y pwyntiau a grybwyllwyd gennym uchod, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ailgyflwyno cynllun cymorth grant cyfnod penodol ar gyfer helpu lladd-dai llai i osod CCTV. Hefyd, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddem yn awgrymu y dylid ystyried yr holl opsiynau mewn perthynas â sut y gellid defnyddio CCTV yn rhagweithiol i leihau costau Milfeddygon Swyddogol, o gofio y byddai'r CCTV yn disodli i ryw raddau yr angen i Filfeddygon Swyddogol fod yn bresennol mewn lladd-dai llai.'* (NFU Cymru)

*'Rydym yn croesawu cynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno teledu cylch cyfyng (CCTV) mandadol ym mhob lladd-dy fel mesur diogelu ychwanegol o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Rydym yn cefnogi'r syniad o gyflwyno CCTV mandadol ym mhob ardal lle caiff anifeiliaid byw eu cadw, eu trin, eu stynio neu eu lladd mewn lladd-dai, yn ogystal â'r syniad y dylai Milfeddygon Swyddogol a swyddogion gorfodi eraill gael mynediad dilyffethair at ddarnau o ffilm CCTV. Ond er bod gwirio darnau o ffilm CCTV yn fesur gorfodi ychwanegol gwerthfawr, mae'n bwysig ailadrodd na ddylai hyn leihau na disodli gwaith monitro a dilysu 'yn y cnawd' mewn perthynas â lles anifeiliaid a hylendid cig – sef gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Filfeddygon Swyddogol.'* (Cymdeithas Milfeddygon Prydain)

*'Mae'r data a gyhoeddwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r nifer o ladd-dai sydd eisoes yn defnyddio CCTV mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn awgrymu i ni y dylid mynd ati cyn gynted â phosibl i roi CCTV mandadol ar waith.'* (Animal Aid)

*'Er y deellir mai mewn ychydig o ladd-dai yn unig yng Nghymru y caiff anifeiliaid eu lladd heb eu stynio, dylid cyflwyno gofynion ychwanegol am CCTV mewn sefyllfaoedd o'r fath.'* (Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru)

*'Daw dau fater i'r meddwl, sef:*
*1) A fydd yn ofynnol i'r CCTV fod â sain?*

*2) Beth yw barn Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio systemau deallusrwydd artiffisial, fel y rhai a ddefnyddir bellach yn yr Iseldiroedd?'* (Humane Slaughter Association)

*'Un mater nad ymdrinnir ag ef yn uniongyrchol yw'r modd y bydd y gwaith o osod y system CCTV a'r offer ychwanegol angenrheidiol yn cael ei ariannu. Os bydd hi'n ofynnol i ladd-dai osod CCTV, a fyddwn yn cael grant i helpu gyda'r costau cyfalaf cychwynnol o leiaf, yn ogystal ag arian tuag at y costau cynnal a chadw? Gellid defnyddio arian y taliadau ardollau a dalwn i Hybu Cig Cymru yn uniongyrchol a'r arian a gasglwn ar ran y sefydliad. A gaf i awgrymu taliad cychwynnol o £7000 i dalu'r costau cyfalaf ynghyd â swm dargadw o oddeutu 10% y mis – yn ein hachos ni, byddai oddeutu £50 y mis yn talu am y costau cynnal a chadw. Oni bai bod yna grant taliadau gwledig perthnasol i'w gael. Pe bai'r system CCTV yn torri, a fyddai hynny'n golygu na allem barhau â'r broses ladd hyd nes y byddai'r system wedi cael ei thrwsio? Pe bai'r lladd-dy mewn ardal wledig, mae'n bosibl y byddai'n rhaid aros diwrnod neu ddau cyn cael gafael ar beiriannydd, a byddai hynny'n achosi straen i'r anifeiliaid ar y safle.'* (Gweithredwr Lladd-dy)

*'Dylid ystyried camau tebyg wrth symud anifeiliaid o'r fferm i'r lladd-dy. Hefyd, dylid cael mesurau tebyg wrth fagu a lladd adar fferm o bob math.'* (Aelod o'r Cyhoedd)

*'Ers talwm, câi lladd-dai eu lleoli yn yr un ardal â'r anifeiliaid – a dylai'r drefn honno ddychwelyd. Mae llwytho anifeiliaid ar lorïau a'u cludo bellteroedd maith yn arfer barbaraidd a dylid ymdrin ag ef fel mater lles hollbwysig.'* (Aelod o'r Cyhoedd)

## Y Camau Nesaf

Dadansoddwyd yr holl ymatebion a gwelir bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion. Mae ymgyrch yr RSPCA wedi darparu 15,943 o ymatebion eraill o blaid ein cynigion. Nodwyd yr ymatebion hyn, ond ni chawsant eu hystyried yn y dadansoddiad manwl a gynhwysir yn y crynodeb hwn.

Yn awr, byddwn yn llunio rheoliadau ar gyfer cyflawni ein hymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i ladd-dai osod CCTV. Wrth inni lunio manylion ein cynigion, byddwn yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn.

## Atodiad 1: Rhestr o’r Ymatebwyr (sefydliadau)

Animal Aid
Animal Law
Cymdeithas Milfeddygon Prydain
Sefydliad Lles Anifeiliaid y Ceidwadwyr
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Humane Slaughter Association
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Coleg Brenhinol y Milfeddygon
RSPCA
Shechita UK
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

## Atodiad 2: Ymateb ymgyrch yr RSPCA

*Annwyl Gydgysylltydd yr Ymgynghoriad, Y Gangen Lles Anifeiliaid,*

*Fel rhywun sy'n gefnogol i anifeiliaid, rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ymwneud â chyflwyno CCTV mandadol mewn lladd-dai yng Nghymru – rhywbeth a fydd yn helpu i atal dioddefaint diangen i ddegau ar filoedd o anifeiliaid fferm a gaiff eu lladd yng Nghymru bob blwyddyn, gan arwain o'r diwedd at gydweddu Cymru â'r un safonau â Lloegr.*

*Rydw i a'r RSPCA yn cefnogi'r syniad o gyflwyno CCTV mewn lladd-dai. Dyma rywbeth rydym wedi bod yn galw amdano ers tro byd. Trwy wneud CCTV yn orfodol mewn lladd-dai, bydd modd helpu i amddiffyn a diogelu lles anifeiliaid ar yr adeg y cânt eu lladd, a hynny trwy Gymru i gyd. Mae CCTV wedi bod yn ofynnol mewn lladd-dai yn Lloegr ers 2018, a dengys adroddiadau fod hyn wedi gwella'r modd y caiff safonau lles anifeiliaid eu goruchwylio a'u gorfodi dros y pedair blynedd diwethaf.*

*Cwestiwn 1: Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy gyflwyno CCTV. A ydych yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy yn yr ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys ardaloedd lle caiff anifeiliaid eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd?*

*Ydw. Yn 2017, roedd 26 o ladd-dai i'w cael yng Nghymru. O blith y rhain, roedd wyth yn defnyddio CCTV i fonitro ardaloedd lle câi anifeiliaid eu trin. Erbyn 2022, roedd 17 o blith y 23 lladd-dy a arolygwyd yn defnyddio CCTV – dengys hyn fod pethau'n mynd i'r cyfeiriad iawn.*

*Yn 2015, rhoddodd milfeddygon swyddogol wybod am 52 achos o dorri rheolau'n ymwneud â lles anifeiliaid. O blith yr achosion hyn, digwyddodd 32 ar safleoedd gyda CCTV a digwyddodd 20 ar safleoedd heb CCTV, yn cynnwys 11 yn ymwneud â stynio a lladd. Wrth ystyried y camau gorfodi a gymerir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn perthynas â thorri rheolau mewn lladd-dai, erbyn 2020 cymerwyd 10% o'r camau hynny trwy ddefnyddio CCTV – dengys hyn y gellir defnyddio CCTV fel arf gorfodi.*

*Mae modd profi bod defnyddio a gosod CCTV wedi bod yn llwyddiannus mewn cynlluniau gwarantu a phan fo defnydd o'r fath yn cael ei fandadu gan Lywodraethau. Ers 2011, mae gosod CCTV wedi bod yn ofynnol mewn perthynas â safonau lles anifeiliaid fferm yr RSPCA – fel y'i defnyddir yng nghynllun gwarantedig yr RSPCA – ac mae wedi bod yn un o argymhellion y safonau ers iddynt gael eu llunio ym 1994.*

*Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r prif fanteision o ran lles anifeiliaid a nodir gennym mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i ladd-dai gyflwyno CCTV?*

*Ydw. Rydw i a'r RSPCA o'r farn fod yna sawl rheswm pam mae gosod CCTV yn fuddiol:*

*1- Mae'n helpu i ymdrin â phryderon y cyhoedd trwy wella sicrwydd a thryloywder a thrwy ychwanegu lefel ychwanegol o sicrwydd a thryloywder at brosesau lladd-dai.*

*2- Er mwyn ei gwneud yn haws i swyddogion awdurdodedig gael mynediad at ddarnau o ffilm, fel y gallant ddiogelu lles anifeiliaid.*

*3- Er mwyn gwella camau gorfodi ar safleoedd nad ydynt yn cydweithredu â'r safonau.*

*4- Er mwyn sicrhau y defnyddir CCTV yn gyffredinol: cyflwynwyd CCTV mandadol yn Lloegr yn 2018, ac yn awr dylai Cymru wneud yr un peth.*

*Credaf y dylai CCTV mandadol beri i'r sector gydymffurfio'n well â'r rheolau – rhywbeth a allai wneud y cyhoedd a'r defnyddwyr yn fwy hyderus fod safonau lles yn cael eu rhoi ar waith.*

*Diolch am gynnal yr ymgynghoriad hwn. A wnewch chi gyfrif yr ymateb hwn fel ymateb unigol o blaid cyflwyno CCTV mandadol yng Nghymru. Rwy’n ymfalchïo yn y safonau lles anifeiliaid sydd ar waith yng Nghymru, ac rwy’n gwirioneddol obeithio y gallwn gydweddu ein safonau ni ar gyfer anifeiliaid fferm â’r safonau a geir yn Lloegr, yn hytrach na’n bod yn cael ein gadael ar ôl.*